

# CANLLAW I GYMORTH BUSNES YNG NGHAERDYDD

INVEST IN CARDIFF
CYFOETHOGI CAERDYDD

CARDIFF
CAERDYDD



# CROESO

Rwy'n falch iawn o gyflwyno ein llyfryn canllawiau ar gymorth busnes yng Nghaerdydd, sy'n darparu gwybodaeth am gymorth, cyngor a chyllid i fusnesau i helpu i ddiogelu swyddi a chadw busnesau yn ein dinas.

Gall tîm Datblygu Economaidd Cyngor Caerdydd roi cyngor i chi ar gyfleoedd i dyfu'ch busnes, ffynonellau cyllido, cefnogaeth a gwybodaeth, adeiladau, arloesedd, marchnadoedd newydd, a rhwydweithio ac yn y cyfnod heriol hwn y mae busnesau'n ei wynebu, ein gwaith ni yw sicrhau bod busnesau Caerdydd yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i ffynnu a manteisio ar y cyfleoedd sy'n bodoli eisoes ac a fydd yn bodoli yn y dyfodol i adeiladu economi gryfach, fwy gwydn.

Mae'r ddogfen hon yn darparu canllaw i'r cymorth sydd ar gael i helpu busnesau Caerdydd i dyfu a ffynnu. Er hwylustod, mae'r ddogfen wedi'i rhannu'n gategorïau, fel a ganlyn:

1. Grantiau, Benthyciadau ac Ecwiti
2. Cymorth Busnes
3. Arloesi
4. Cymorth Sector
5. Sgiliau, Recriwtio a Hyfforddiant
6. Trydydd Sector



**Y Cynghorydd Huw Thomas,**
**Arweinydd,**
**Cyngor Caerdydd**

# MYNEGAI A CHATEGORÏAU

Tudalen

## 1 Grantiau, Benthyciadau ac Ecwiti

Cynhyrchion a gwasanaethau ariannol

- Cronfa Lleoliadau Llawr Gwlad Caerdydd 6
- Cronfa Twf Caerdydd 7
- Banc Datblygu Cymru 8
- Cyfalaf Buddsoddi Mewn Arloesi 9
- Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch 10
- Cronfa Buddsoddi i Gymru 11
- UK Steel Enterprise 12

## 2 Cymorth Busnes

Canllawiau a chyngor ar ddechrau a thyfu busnes

- Busnes mewn Ffocws 14
- Busnes Cymru 15
- Canolfan Technoleg Busnes Caerdydd 16
- Unedau Busnes Newydd Caerdydd 17
- Prifysgol Caerdydd – Ysgol Busnes Caerdydd 18
- Siambrau Cymru 19
- Ffederasiwn Busnesau Bach 20
- Caerdydd AM BYTH 21
- Cwrdd yng Nghaerdydd - Swyddfa Swyddogol Confensiwn Caerdydd 22
- Gwerthu i Gyngor Caerdydd 23

## 3 Arloesedd

Cymorth gan sefydliadau sydd wrthi’n gweithio ym maes arloesi

- Barclays Eagle Labs yn Tramshed Tech 25
- Arloesoedd Caerdydd@sbarc 26
- Y Rhwydwaith Arloesedd 27
- Partneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth 28

## 4 Cefnogaeth y Sector

Gwybodaeth a all fod yn berthnasol i sectorau penodol

- Yn gysylltiedig trwy glwstwr 30
- Cymru Greadigol 31
- FinTech Wales 32
- Canolfan Gwyddorau Bywyd 33
- Manufacturing Wales 34
- Technology Connected 35
- Croeso Caerdydd 36
- Rhwydwaith Croeso Caerdydd 37

## 5 Sgiliau, Recriwtio a Hyfforddiant

Gwybodaeth am gyflogadwyedd, interniaethau, recriwtio graddedigion, prentisiaethau ac uwchsgilio neu ailsgilio’r gweithlu

- Coleg Caerdydd a’r Fro 39
- Addewid Caerdydd 40
- Gyrfa Cymru 41
- Cymorth sy’n addas i chi 42
- Tramshed Tech 43

## 6 Trydydd Sector

Gwybodaeth gan sefydliadau sy’n darparu gwybodaeth a chyngor ar gwmnïau cymdeithasol, gwybodaeth am y sector a’r economi gymdeithasol

- Rhwydwaith Economi Gylchol Caerdydd 45
- Cyngor Trydydd Sector Caerdydd 46
- Sefydliad Cymunedol Cymru 47
- Cwmpas 48
- Cwmnïau Cymdeithasol Cymru 49
- CGGC 50

# GRANTIAU, BENTHYCIADAU AC ECWITI

# Cronfa Lleoliadau Llawr Gwlad Caerdydd

Bydd y Gronfa Lleoliadau Llawr Gwlad CFfG (Cronfa Ffyniant Gyffredin) newydd yn cefnogi lleoliadau presennol i fuddsoddi yn eu lleoliad i'w wneud yn fwy cynaliadwy yn ariannol neu'n amgylcheddol. Bydd y gronfa newydd ar gael i leoliadau o fewn Awdurdod Lleol Caerdydd sy'n bodloni'r meini prawf canlynol:

- Cwmni cyfyngedig, menter gymdeithasol gofrestredig, CBC neu elusen.
- Gyda throsiant gweithredu yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf uwchlaw'r trothwy TAW (£85,000).
- Busnes sefydledig sydd wedi bod yn masnachu am dros dau flynedd.
- Lleoliad Caerdydd a'i brif bwrpas yw perfformiad diwylliannol
- BBaCh (llai na 250 o weithwyr a throsiant blynyddol o dan €50 miliwn).

Bydd y Gronfa Lleoliadau Llawr Gwlad yn cynnwys:

- Grantiau cyfalaf o £1,000 i £10,000
- Ar gael i fusnesau sydd â chyfeiriad busnes cofrestredig yng Nghaerdydd
- Angen dau ddyfynbris ar gyfer gwariant y prosiect
- Bydd y grant yn 50% o gyfanswm gwariant y prosiect ac eithrio TAW
- Ni ddylid bod wedi rhoi blaendal ar gyfer eitemau na bod wedi ymrwymo i'w prynu cyn cael cymeradwyaeth.

Bydd angen i ymgeiswyr hefyd ddangos a all cyllid grant helpu i gyfrannu at les economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol Caerdydd.

**Cysylltiadau:**

**Gwefan:**
Cronfa Lleoliadau Llawr Gwlad Caerdydd

**E-bost:**
Cardiffvenuefund@cardiff.gov.uk

**Cyfryngau Cymdeithasol:**
Cardiff Council

CARDIFF CAERDYDD

LEVELLING UP

UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru

# Cronfa Twf Caerdydd

Bydd Cronfa Twf Caerdydd newydd y CFfG yn cefnogi busnesau i ail-lansio, datblygu a thyfu.  Mae'r cyllid yn rhoi cyfle i roi hwb i'r economi a'i thyfu gan ganolbwyntio ar greu dyfodol tecach, gwyrddach a llewyrchus i fusnesau Caerdydd.  Bydd y gronfa newydd ar gael i gwmnïau o fewn Awdurdod Lleol Caerdydd sy'n bodloni'r meini prawf canlynol:

- Cwmni cyfyngedig, menter gymdeithasol gofrestredig neu elusen. Yn anffodus, nid yw Unig Fasnachwyr yn gymwys.
- Gyda throsiant gweithredu yn ystod y 3 blynedd diwethaf uwchlaw'r trothwy TAW (£85,000)
- Busnes sefydledig sydd wedi bod yn masnachu am dros 3 blynedd
- Cyfeiriad busnes Caerdydd
- BBaCh (llai na 250 o weithwyr a throsiant blynyddol o dan €50 miliwn)

Bydd y Gronfa Dwf yn cynnwys:

- Grantiau £5,000-£10,000
- Ar gael i fusnesau sydd â chyfeiriad busnes cofrestredig yng Nghaerdydd
- Angen 2 ddyfynbris ar gyfer gwariant y prosiect
- Bydd y grant yn 50% o gyfanswm gwariant y prosiect ac eithrio TAW
- Ni ddylid bod wedi rhoi blaendal ar gyfer eitemau nac ymrwymo i'w prynu cyn cael cymeradwyaeth.

Bydd angen i ymgeiswyr hefyd ddangos a all cyllid grant helpu i gyfrannu at les economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol Caerdydd.

**Cysylltiadau:**

**Gwefan:**
Cronfa Twf Caerdydd

**E-bost:**
Cardiffgrowthfund@cardiff.gov.uk

**Cyfryngau Cymdeithasol:**
Cardiff Council

# Banc Datblygu Cymru

Rydym yn ariannu busnesau y credwn fydd o fudd i Gymru a'i phobl.  Y rheini a fydd yn creu crychdonnau o dwf.  Y rheini sy'n fwy na model busnes da neu syniad gwych. Rydym yn ariannu busnesau cyfrifol - y rheini sydd â safonau cymdeithasol, moesegol ac amgylcheddol cryf, yn ogystal ag addewid masnachol go iawn.

Drwy ddarparu cyllid cynaliadwy ac effeithiol lle mae'r opsiynau wedi ymddangos yn gyfyngedig, rydym yn dod ag uchelgeisiau yn fyw ac yn tanio posibiliadau i bobl, busnesau a chymunedau yng Nghymru a thu hwnt.

Gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, rydym yn cynnig cyllid a mwy i fusnesau yng Nghymru, gan gynnwys:

- Benthyciadau busnes - O fenthyciadau busnes bach i becynnau ariannol mawr
- Cyllid ecwiti - Buddsoddwr profiadol mewn busnesau technoleg newydd, busnesau cyfnod cynnar a busnesau sefydledig
- Ymchwil- Data annibynnol, cadarn a dibynadwy ar economi Cymru

**Cysylltiadau:**

**Gwefan:**
Banc Datblygu Cymru

**Ffôn:**
0800 587 4140

**Cyfryngau Cymdeithasol:**
Banc Datblygu Cymru

# Cyfalaf Buddsoddi Mewn Arloesi

Mae Cyfalaf Buddsoddi mewn Arloesi yn gronfa gwerth £50m a sefydlwyd i ddarparu cyfalaf amyneddgar i fusnesau sy'n tyfu o bob rhan o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ne-ddwyrain Cymru. Disgwylir i gyllid ychwanegol ddod gan un neu fwy o bartneriaid cyd-fuddsoddi i gynyddu maint cyffredinol y gronfa.

Mae'n targedu cynigion buddsoddi rhwng £2m a £7m fesul cynnig i gefnogi cwmnïau twf uchel sy'n canolbwyntio ar dechnoleg ac sydd yn un o'r 10 ardal awdurdod lleol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd, neu sy'n ehangu i un o'r ardaloedd hyn.

Wedi'i chreu gan P-RC wedi'i phweru gan PwC, ac wedi'i strwythuro fel Cronfa Buddsoddi Amgen a reolir gan Capricorn Fund Managers, mae'r rhaglen ariannu arloesol hon wedi'i hanelu at gynhyrchu twf a ffyniant i'n rhanbarth cyfan, gan helpu i wireddu uchelgeisiau mentrau sy'n cael eu hadeiladu a'u llunio o gwmpas gweledigaethau beiddgar.

**Cysylltiadau:**

**Gwefan:**
Cyfalaf Buddsoddi Mewn Arloesi

**E-bost:**
info@cardiffcapitalregion.wales

**Cyfryngau Cymdeithasol:**
Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Cardiff Capital Region

pwc

# Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch

Mae'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch ar gael i fusnesau cymwys sy'n gweithredu yn y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch. Bydd busnesau cymwys yn cael gostyngiad o 75% yn eu rhwymedigaeth net ar gyfer ardrethi annomestig yn 2023 i 2024. Ni ddylai uchafswm gwerth ariannol y rhyddhad ardrethi a ganiateir, ar draws pob eiddo yng Nghymru sy'n cael eu defnyddio gan yr un busnes, fod yn fwy na £110,000.

Mae angen i fusnesau ddatgan eu bod yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd a nodwyd yn y ddogfen ganllawiau hon a nodi ar gyfer pa eiddo y maent yn dymuno hawlio rhyddhad. Os yw 50% o'r atebolrwydd ar draws eiddo'r busnes yn fwy na £110,000 neu'r terfyn MFA, bydd angen i fusnesau nodi ar gyfer pa eiddo yr hoffent hawlio'r rhyddhad. Gall busnesau ddewis ar gyfer pa eiddo y byddant yn ceisio rhyddhad. Pan fydd cyfanswm y rhyddhad a ganiateir ar gyfer eiddo eraill yn agos i'r uchafswm o £110,000 neu'r terfyn MFA, gellir caniatáu swm o ryddhad sy'n llai na 75% ar gyfer eiddo cymwys arall.

Rhaid cyflwyno ffurflen gais i bob awdurdod lleol y mae'r busnes yn gwneud cais am ryddhad ar gyfer eiddo yn ei ardal. Rhaid i bob ffurflen gynnwys manylion pob eiddo y gwneir cais am ryddhad ar ei gyfer ar draws Cymru. Os na wneir cais, ni ellir rhoi rhyddhad.

**Cysylltiadau:**

**Gwefan:**
Cynllun Rhyddhad Ardrethi

**Cyfryngau Cymdeithasol:**
Cardiff Council

CARDIFF
CAERDYDD

# Cronfa Buddsoddi i Gymru

Bydd y Gronfa Buddsoddi i Gymru'n ymrwymo £130 miliwn o gyllid newydd i Gymru.

Nod y gronfa yw sicrhau twf economaidd cynaliadwy trwy gynorthwyo arloesedd a chreu cyfleoedd lleol ar gyfer busnesau newydd ac sydd ar dwf ar draws Cymru.

Bydd y Gronfa Buddsoddi i Gymru'n cynnig amrywiaeth o opsiynau cyllid masnachol gyda benthyciadau llai o rhwng £25,000 a £100,000, gwerth rhwng £100,000 a £2 filiwn o gyllid i ariannu dyledion, a buddsoddiadau ecwiti hyd at £5 miliwn. Mae'r gronfa'n cwmpasu Cymru gyfan, gan gynnwys ardaloedd gwledig, arfordirol a threfol.

**Arian sydd ar gael:**

Benthyciadau Llai: £25k - £100k

Cyllid I Ariannu Dyledion: £100k - £2m

Cyllid Ecwiti: Hyd at £5m

**Cysylltiadau:**

**Gwefan:**
Cronfa Buddsoddi i Gymru

**Cyfryngau Cymdeithasol:**
British Business Bank

BCRS BUSINESS LOANS
We believe in you

# UK Steel Enterprise

Mae UKSE yn darparu buddsoddiad a gofod gwaith i helpu busnesau lleol i wireddu eu potensial. Mae cyllid UKSE ac opsiynau gofod gwaith wedi'u cynllunio i'ch helpu i wneud hynny'n union, gan eich cefnogi i wireddu eich uchelgeisiau.

**Cyllid Ecwiti:**

- Hyd at £1 miliwn
- Anaml y bydd angen diogelwch
- Gyda chi bob cam o'r ffordd...
- Chi sy'n cadw'r rheolaeth
- Hyblyg o ran gadael

**Benthyciadau:**

- Cyllid heb ei warantu hyd at £100k
- Cyfraddau llog sefydlog, bob amser
- Ad-daliadau fforddiadwy
- Anaml y bydd angen gwarantau personol
- Benthyciadau gwarantedig ar gael

**Gweithleoedd:**

- Gyda swyddfeydd, gweithdai ac unedau diwydiannol wedi'u gwasanaethu mewn amrywiaeth o feintiau, mae UKSE yn cynnig safleoedd sydd o ansawdd uchel ac yn werthfawr iawn yng Nghaerdydd.

**Cysylltiadau:**

**Gwefan:**
www.ukse.co.uk

**E-bost:**
wales@ukse.co.uk

**Cyfryngau Cymdeithasol:**
UKSE

ukse.

# CYMORTH BUSNES

# Busnes mewn Ffocws

Mae Busnes mewn Ffocws yn fenter gymdeithasol sy'n ymroddedig i gefnogi busnesau newydd a busnesau sefydledig.

Rydym wedi bod yn helpu pobl i ddechrau a datblygu eu busnesau eu hunain ers dros dri degawd, drwy ddarparu cyngor busnes arbenigol wedi'i deilwra, mynediad at gyllid, gofynion eiddo a hyfforddiant sgiliau.

Mae rhai o'n gwasanaethau yn cael eu darparu ar ran cyrff cyhoeddus a phreifat, ac mae gennym hanes rhagorol o weithio gyda Llywodraethau Cymru a Llywodraeth y DU.

**Cysylltiadau:**

**Gwefan:**
www.businessinfocus.co.uk/cy/

**Cyfryngau Cymdeithasol:**
Busnes mewn Ffocws

Business in focus

# Busnes Cymru

Mae Busnes Cymru yn darparu gwybodaeth, cyngor, arweiniad a chymorth didueddd i bobl yng Nghymru sy'n dechrau, cynnal a thyfu busnesau. Beth bynnag fo her eich busnes, mae'n debygol y gall ein harbenigedd a'n cefnogaeth helaeth eich helpu. O gymorth gyda chyngor Adnoddau Dynol, cynllunio busnes, lleihau carbon a gwelliannau mewn cynhyrchiant i helpu gyda chyllid, mae gennym y cyfan sydd ei angen arnoch.

O ddechrau busnes newydd i ehangu busnes sefydledig, rydym yma i helpu. Mae ein rhwydwaith ymgynghorwyr wedi helpu busnesau i sicrhau buddsoddiadau gwerth dros £120 miliwn a chreu 17,500 o swyddi. Cliciwch ar y botymau isod i ddarganfod sut y gallwn eich helpu i gymryd y cam nesaf a datblygu eich busnes:

- Strategaeth
- Cyllid
- Recriwtio
- Arallgyfeirio
- Cefnogaeth arbenigol i'ch busnes

**Cysylltiadau:**

**Gwefan:**
Busnes Cymru

**Ffôn:**
03000 6 03000

**Sianeli Cymdeithasol:**
Business Wales

# Canolfan Technoleg Busnes Caerdydd

Mae dyluniad Canolfan Technoleg Busnes Caerdydd (CTBC) yn adlewyrchu'r cysyniad o drosglwyddo gwybodaeth sy'n cysylltu busnes, technoleg a'r brifysgol â diwydiant.

Gellir addasu'r llety ar gyfer ystod eang o ddefnyddiau busnes gydag unedau unigol ar gael o 142-777 troedfedd sgwâr.

O unedau sengl neu gyfun, mae CTBC yn darparu lefel uchel o gysur a rheolaeth amgylcheddol i fusnesau.

Mae hyblygrwydd wrth wraidd cynnig CTBC – sy'n eich galluogi i dyfu yn ôl gofynion eich busnes.

Dylai fod gan y cwmnïau gysylltiadau presennol neu bosib â'r sector addysg uwch.

Dylai tenantiaid allu dangos y byddant yn elwa o'r amgylchedd cefnogol a ddarperir gan y lleoliad, y llety a'r gwasanaethau cysylltiedig.

**Cysylltiadau:**

**Gwefan:**
Canolfan Technoleg Busnes Caerdydd

**Ffôn:**
029 2064 7000

**E-bost:**
enquiries@cbtc.co.uk

cbtc
Cardiff Business Technology Centre

CARDIFF
CAERDYDD

# Unedau Busnes Newydd Caerdydd

Mae adran Datblygu Economaidd Cyngor Caerdydd yn rheoli naw safle ar draws Caerdydd sy'n cynnwys 140 o weithdai yn y ddinas, gyda'r nod o annog busnesau lleol newydd a'r rheini sy'n tyfu drwy gynnig unedau busnes sydd â thelerau hawdd eu defnyddio.

Mae'r unedau'n amrywio o ran maint o 120 i 2,000 troedfedd sgwâr, gyda'r rhan fwyaf o unedau gweithdy wedi'u dynodi â dosbarth defnydd B1.

Yn ogystal â safle'r gweithdy, mae gan y cyngor dir ac asedau adeiladu eraill a allai fod yn addas ar gyfer eich gofynion busnes.

**Cysylltiadau:**

**Gwefan:**
Unedau Busnes Newydd Caerdydd

**E-bost:**
enquiries@cbtc.co.uk

CARDIFF
CAERDYDD

cbtc
Cardiff Business Technology Centre

# Prifysgol Caerdydd – Ysgol Busnes Caerdydd

Mae Ysgol Busnes Caerdydd yn darparu cymorth targedig a chyfleoedd datblygu trwy weithgareddau addysgu, ymchwil ac ymgysylltu, sy'n hygyrch i'r gymuned fusnes fach.

Mae ganddi hefyd hanes cryf o gefnogi cyrff diwydiant a llunwyr polisi i ddeall yn well yr heriau sy'n wynebu'r gymuned busnesau bach. Mae ei gwaith yn helpu i hwyluso datblygiad polisïau a dulliau cefnogi a fydd yn gwella twf busnesau bach ac yn hyrwyddo diwylliant menter.

Yn darparu cymorth ymchwil a datblygu wedi'i deilwra i BBaChau trwy ystod o ddulliau.

**ASTUTE 2020** - rhaglen ymchwil a datblygu gydweithredol amlddisgyblaethol a ariennir yn rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru a'i phedwar Sefydliad Addysg Uwch Cymru sy'n cymryd rhan.

**Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth** – dull sydd â hanes sefydledig o lwyddiant wrth gefnogi BBaChau ledled Cymru a'r DU ehangach i wella eu busnesau a gwella eu galluoedd mewnol.

**Strategaeth fusnes ac entrepreneuriaeth** - mae'n cynnig cyfleoedd datblygu arbenigol i'r rheini sydd â diddordeb entrepreneuraidd uchel a'r potensial i sefydlu eu busnes eu hunain, neu weithio mewn cymhwyster datblygu menter newydd mewn sefydliad sefydledig.

**Lleoliadau** - gweithio i sicrhau bod portffolio o leoliadau sy'n amrywiol ac yn ehangu ynghyd â chyfleoedd i raddedigion yn darparu ar gyfer y gymuned busnesau bach, ac yn eu cefnogi, drwy hwyluso mynediad at dalent ddisglair, frwdfrydig mewn ffordd sy'n gweithio i'ch busnes.

**Partneriaethau** - cymryd rhan mewn partneriaethau â mentrau cymdeithasol ledled y DU ac yn rhyngwladol wrth wella bywydau a'r cymunedau y maent yn gweithredu ynddynt.

**Cysylltiadau:**

**Gwefan:**
Ysgol Busnes Caerdydd

**E-bost:**
carbs-enterprise@caerdydd.ac.uk

**Ffôn:**
029 2087 4674

**Cyfryngau Cymdeithasol:**
Cardiff Business

CARDIFF UNIVERSITY PRIFYSGOL CAERDYDD

Part of the RUSSELL GROUP

# Siambrau Cymru

Gweledigaeth Siambrau Cymru yw creu cymuned fusnes ffyniannus ar gyfer Cymru fwy llewyrchus. Gan ddefnyddio eu rhwydwaith, eu sgiliau, eu dylanwad a'u profiad gwleidyddol, eu cenhadaeth yw cefnogi busnesau pan fydd ei angen arnynt. Mae Siambrau Cymru'n hyrwyddo, cysylltu, cefnogi ac yn hysbysu busnesau ledled Cymru a'r byd.

Mae Siambrau Cymru yn cynnig y cysylltedd, y gallu a'r cymhwysedd sydd eu hangen ar BBaChau, sy'n cynnwys:

Cysylltu – pobl, cyfleoedd a marchnadoedd

Hyrwyddo – yn genedlaethol ac yn rhyngwladol

Cymorth – cymorth amserol a diduedd

Hysbysu – hyfforddi, cynghori, ymgynghori

**Cysylltiadau:**

**Gwefan:**
cw-seswm.com

**E-bost:**
info@cw-seswm.com

**Cyfryngau Cymdeithasol:**
Siambrau Cymru

CHAMBERS WALES

# Ffederasiwn Busnesau Bach (FfBB)

Mae'r FfBB yng Nghymru yn gweithio gydag aelodau, Llywodraeth Cymru, cynrychiolwyr etholedig, cynghorau a llawer o benderfynwyr eraill ledled y wlad i gefnogi busnesau bach a phobl hunangyflogedig.

P'un a ydych chi'n dechrau busnes newydd, yn gweithio i chi'ch hun neu'n rheoli tîm sy'n tyfu, mae'r FfBB yma i'ch helpu chi bob cam o'r ffordd. Gwnewch fwy o amser i gynnal eich busnes gyda chymorth, cyngor ac arweiniad gan arbenigwyr y diwydiant ar flaenau eich bysedd, gan gwmpasu cyfraith cyflogaeth, cyllid, marchnata a mwy.

**Cysylltiadau:**

**Gwefan:**
Ffederasiwn Busnesau Bach (FfBB)

**E-bost:**
Wales@fsb.org.uk

**Cyfryngau Cymdeithasol:**
Ffederasiwn Busnesau Bach

fsb Federation of Small Businesses

# Caerdydd AM BYTH

Ardal Gwella Busnes yw Caerdydd AM BYTH.

Rydym yn sefydliad preifat, nid-er-elw, ar gyfer aelodau, a gafodd ei ffurfio drwy bleidlais gan fusnesau'r ddinas ym mis Mehefin 2016. Dechreuon ni ein tymor pum mlynedd cyntaf ym mis Rhagfyr 2016 gyda chynllun uchelgeisiol i drawsnewid canol dinas Caerdydd.

Ers hynny, rydym wedi buddsoddi dros £7.5 miliwn ar y cyd i wneud Caerdydd yn lle mwy croesawgar, bywiog a dylanwadol, drwy ymgyrchoedd, prosiectau a mentrau sydd wedi ennill gwobrau.

Fel ardal gwella busnes, mae Caerdydd AM BYTH yn gweithio'n galed i sicrhau gwelliannau i'r 750+ o fusnesau yng nghanol y ddinas sy'n ein hariannu, yn ogystal ag i'r gymuned ehangach yng Nghaerdydd. Rydym yn ystyried Caerdydd fel prifddinas Ewropeaidd fodern gyda phersonoliaeth unigryw yr ydym am ei meithrin. Rydym am i Gaerdydd fod yn lle gwych i ddod at ddibenion busnes a hamdden, ond hefyd yn lle i bobl leol fod yn falch ohono.

**Cysylltiadau:**

**Gwefan:**
www.forcardiff.com

**E-bost:**
info@forcardiff.com

**Cyfryngau Cymdeithasol:**
Caerdydd AM BYTH

FOR CARDIFF

# Cwrdd yng Nghaerdydd - Swyddfa Swyddogol Confensiwn Caerdydd

Cynigir gwasanaeth cymorth prydlon, proffesiynol ac at y diben i drefnwyr digwyddiadau busnes i gefnogi'r gwaith o gynllunio digwyddiadau busnes llwyddiannus yng Nghaerdydd.  Gall tîm Cwrdd yng Nghaerdydd helpu i ddod o hyd i'r lleoliad gorau ar gyfer y digwyddiad a darparu cefnogaeth ar gyfer ceisiadau cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae gan y tîm hefyd gylch gwaith marchnata i hyrwyddo Caerdydd fel cyrchfan ryngwladol ar gyfer digwyddiadau busnes. Mae'r tîm yn gweithio'n agos gyda Cyfoethogi Caerdydd, arweinwyr yn y diwydiant, a'u rhwydwaith o Genhadon Cynhadledd Caerdydd ar draws sectorau diwydiant, i hyrwyddo cryfderau Caerdydd ac i wella rhaglenni cynadledda.

Mae'r tîm yn rheoli Swyddfa Confensiwn Caerdydd gan ddarparu gwasanaeth diduedd, proffesiynol am ddim i helpu a chefnogi trefnydd y digwyddiad busnes.

Mae Cwrdd yng Nghaerdydd yn un o bartneriaid yn y Partneriaeth Digwyddiadau Busnes Caerdydd. Mae'r bartneriaeth weithredol yn mynd i'r afael â sut gall Caerdydd ddatblygu ymhellach i ddarparu lle gwych i gwrdd.

**Cysylltiadau:**

**Gwefan:**
cwrddcaerdydd.com

**E-bost:**
hello@meetincardiff.com

**Cyfryngau Cymdeithasol:**
Cwrdd yng Nghaerdydd

CARDIFF CAERDYDD

CARDIFF CAERDYDD

# Gwerthu i Gyngor Caerdydd

Mae Cyngor Caerdydd yn gwario dros £482 miliwn y flwyddyn ar gaffael ystod eang o nwyddau, gwasanaethau a gwaith gan sefydliadau allanol yn y sector preifat a'r trydydd sector.

Rhaid i'r gwariant hwn gael ei reoli'n effeithlon ac effeithiol, a chyfrifoldeb y Tîm Comisiynu a Chaffael yw rheoli holl weithgareddau caffael y Cyngor

Bydd Cyngor Caerdydd yn cyhoeddi cyfleoedd contract ar un o'r systemau isod:

- GwerthwchiGymru yw gwefan Gaffael Genedlaethol Cymru, mae hyn yn cynnwys yr holl gyfleoedd contract a hysbysebir yn eang â gwerth iddynt sydd uwchlaw ac islaw trothwyon y Rheoliadau Contractau Cyhoeddus (RhCC/PCR). Mae gan GwerthwchiGymru gysylltiad uniongyrchol â'r Gwasanaeth Dod o hyd i Dendr (GDHD/FTS) lle mae'n rhaid cyhoeddi contractau sy'n uwch na throthwyon RhCC.
- Proactis yw porth e-dendro newydd y Cyngor, a ddefnyddir hefyd gan awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Hysbysebir cyfleoedd contract drwy'r porth hwn i gyflenwyr/contractwyr cofrestredig.

**Cysylltiadau:**

**Gwefan:**
Gwerthu i Gyngor Caerdydd

**Cyfryngau Cymdeithasol:**
Cardiff Council

CARDIFF CAERDYDD ardal socially responsible procurement Sell2Wales proactis

# ARLOESEDD

# Barclays Eagle Labs yn Tramshed Tech

Mae tîm Eagle Labs Caerdydd bellach yn Tramshed Tech ac mae'n cefnogi anghenion entrepreneuriaid, busnesau, crewyr a chymunedau lleol ac yn buddsoddi yn nyfodol Cymru trwy gefnogi economi Caerdydd sy'n tyfu.

Mae Eagle Labs yn darparu cyfoeth o gefnogaeth i fusnesau newydd, yn enwedig y rheini sy'n canolbwyntio ar dechnoleg ac arloesi. I'r rheini sydd angen lle ffisegol, rydym yn darparu cydweithio a swyddfeydd ledled y DU.

I'r rheini sy'n chwilio am fwy o gefnogaeth rithwir, byddwch yn gallu manteisio ar ein gwasanaethau a'n harbenigedd o bell. Gellir cysylltu busnesau â'n mentoriaid, ein harbenigwyr a'n bargeinion sydd wedi'u cynllunio i'w helpu i dyfu.   Rydym hefyd yn darparu cyfleoedd i fanteisio ar gymuned gydweithredol lle gellir rhoi busnesau mewn cysylltiad â'u cyfoedion a dysgu ganddynt.

Gall busnesau sydd wrthi'n tyfu elwa o rai o'r ymagweddau mwy pwrpasol a theilwredig sydd ar gael trwy Labs.   Rydym yn cynnig arbenigwyr mewn twf trwy ein partneriaid mentora.  Gall busnesau sydd am godi cyfalaf pellach gael eu cysylltu â buddsoddwyr trwy ein Cyfeirlyfr Prosiectau Arddangos.

**Cysylltiadau:**

**Gwefan:**
labs.uk.barclays/locations/cardiff

**Ffôn:**
0345 734 5345

**Cyfryngau Cymdeithasol:**
Barclays-Eagle-Labs

BARCLAYS | Eagle Labs

# Arloesoedd Caerdydd@sbarc

Mae Arloesoedd Caerdydd@sbarc yn gartref i bobl a chyfleusterau sy'n helpu i droi syniadau gwych yn dwf ledled Cymru a thu hwnt. Mae'r ganolfan, sydd yn adeilad sbarc wrth galon Campws Arloesi gwerth £300m y Brifysgol, yn ganolbwynt ar gyfer meithrin a datblygu partneriaethau diwydiant.

Yn cynnwys 17,500 troedfedd sgwâr o le penodol wedi'i wasgaru ar draws 4 llawr, mae gan Arloesoedd Caerdydd@sbarc le swyddfa y gellir ei osod o 226 troedfedd sgwâr i 1163 troedfedd sgwâr, ardaloedd cyfarfod ffurfiol ac anffurfiol, cyfleusterau cynadledda o safon uchel, 4240 troedfedd sgwâr o labordy gwlyb ac ardaloedd arddangos/cyflwyno ar y cyd gan gynnwys lle cynadledda ar gyfer hyd at 200 o bobl.

Mae'r ganolfan ym Mharc Maendy yng nghanol Caerdydd ac mae'n cynnwys amrywiaeth o gyfleusterau newydd a fydd yn caniatáu i arloesi ffynnu:

- 17,500 troedfedd sgwâr o ofod swyddfa y gellir ei osod, gydag opsiynau o 226 i 1163 troedfedd sgwâr
- 4,800 troedfedd sgwâr o ofod cydweithio
- Ystafelloedd cyfarfod ffurfiol ac anffurfiol sy'n cynnwys cyfleusterau cynadledda o'r radd flaenaf
- Manteisio ar wasanaethau ymgynghorwyr stryd fawr proffesiynol
- Gofod cydweithio pwrpasol ar gyfer entrepreneuriaid sy'n fyfyrwyr ac sy'n raddedigion
- Ardaloedd arddangos/cyflwyno ar y cyd
- 4,240 troedfedd sgwâr o ofod labordy gwlyb (gan gynnwys cypyrddau mygdarthau unigol a rhai a rennir)
- Band eang cyflym
- Ardaloedd desgiau poeth a chydweithio
- Derbynfa ganolog
- Lle cynadledda/digwyddiadau ar gyfer hyd at 200 o bobl
- Mynediad at gyfraddau cystadleuol i wasanaethau a chyfleusterau'r Brifysgol

**Cysylltiadau:**

**Gwefan:**
Arloesoedd Caerdydd@sbarc

**E-bost:**
innovationsystem@caerdydd.ac.uk

Cardiff University Prifysgol Caerdydd

Part of the Russell Group

# Y Rhwydwaith Arloesedd

Mae'r rhwydwaith wedi cyflwyno cannoedd o gwmnïau i'n harbenigedd, ein gwybodaeth a'n cyfleusterau drwy ein Rhwydwaith Arloesedd, gan gynnal cyfres o ddigwyddiadau am ddim drwy gydol y flwyddyn, gan gwmpasu pynciau ar arloesi, menter ac entrepreneuriaeth. Mae'r digwyddiadau hyn yn gyfle gwych i gysylltu â'n harbenigedd ac â phobl fusnes leol, ac i glywed siaradwyr ysbrydoledig sy'n ysgogi'r meddwl.

Gall aelodau gael yr wybodaeth ddiweddaraf am gyfleoedd ariannu perthnasol a chanllawiau cymorth busnes, drwy Gofrestru ar gyfer ein haelodaeth a dewis cael eu hychwanegu at ein rhestr bostio.

Mae gan y Rhwydwaith Arloesedd oddeutu 1,800 o aelodau sy'n cynnwys pobl fusnes o ystod eang o ddiwydiannau, cwmnïau a sefydliadau yn ogystal ag academyddion. Mae tua 70% o'n haelodau yn fusnesau bach a chanolig lleol.   Mae'r gweddill yn dod o sefydliadau cymorth busnes a'r byd academaidd.

**Cysylltiadau:**

**Gwefan:**
Y Rhwydwaith Arloesedd

**E-bost:**
innovationnetwork@caerdydd.ac.uk

**Cyfryngau Cymdeithasol:**
Cardiff University Innovation Network

CARDIFF UNIVERSITY PRIFYSGOL CAERDYDD

Part of the RUSSELL GROUP

# Partneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth

Mae'r rhaglen Partneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth (PTG) yn creu partneriaeth ddeinamig tair ffordd rhwng busnes, tîm academaidd arbenigol ac unigolyn graddedig neu ôl-raddedig talentog (y Cydymaith). Nod PTGau yw helpu busnesau i wella eu cystadleurwydd a'u cynhyrchiant trwy ddefnydd gwell o wybodaeth, technoleg a sgiliau o fewn sylfaen wybodaeth y DU.

Mae'r rhaglen, a ariennir gan UKRI trwy Innovate UK, wedi ei chynnal ers dros 45 mlynedd ac yn ystod y cyfnod hwnnw mae wedi galluogi dros 14,000 o fusnesau i yrru arloesedd ar gyfer effaith gadarnhaol. Mae PTG yn bartner cyflwyno'r rhaglen, gan ddarparu cefnogaeth arbenigol i holl brosiectau a chymdeithion PTG trwy ei rwydwaith cenedlaethol o 31 o Ymgynghorwyr Trosglwyddo Gwybodaeth.

Mae rhaglen PTG wedi'i hariannu'n rhannol gan grant. Bydd angen i chi gyfrannu at gyflog y Cydymaith ynghyd â chost y goruchwyliwr a fydd yn goruchwylio'r cynllun.

**Cysylltiadau:**

**Gwefan:**
Partneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth

**E-bost:**
bep@caerdydd.ac.uk

# CEFNOGAETH Y SECTOR

# Yn gysylltiedig trwy glwstwr

Mae CSconnected yn cynrychioli sefydliadau sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol ag ymchwil, datblygu, arloesi a gweithgynhyrchu technolegau sy'n gysylltiedig â lled-ddargludyddion cyfansawdd yn ogystal â sefydliadau ar hyd y cadwyni cyflenwi y mae eu cynhyrchion a'u gwasanaethau yn cael eu galluogi gan led-ddargludyddion cyfansawdd.

Mae'r DU, a Chymru'n benodol, yn gartref i nifer cynyddol o sefydliadau a busnesau sy'n weithgar yn y sector diwydiant hwn sy'n dod yn fwyfwy pwysig.

Mae'r gweithgareddau hefyd yn cynnwys ffurfio gweithgaredd cydlynu canolog i gynrychioli a hyrwyddo'r clwstwr ac i ddatblygu galluoedd addysgol a sgiliau rhanbarthol ar gyfer y sector.  Bydd y prosiect hefyd yn cwmpasu sefydlu 'cartref' pwrpasol ar gyfer clwstwr CSconnected a fydd yn cynnwys cyfleusterau cyfarfod a chynadledda, hyb allgymorth a chanolfan ymwelwyr.

**Cysylltiadau:**

**Gwefan:**
csconnected.com/cy/

**Cyfryngau Cymdeithasol:**
CSConnected

# Cymru Greadigol

Cafodd Cymru Greadigol, Llywodraeth Cymru, ei sefydlu yn 2020 i gefnogi'r diwydiannau creadigol yng Nghymru. Rydym yn defnyddio pŵer ein sectorau creadigol, yn sbarduno twf yn ein heconomi ac yn helpu i adeiladu dyfodol llewyrchus i'n gwlad.

Mae ein tîm arbenigol yn cysylltu pobl a busnesau i feithrin cyfleoedd newydd; darparu gwybodaeth ac adnoddau i wella sgiliau ein gweithlu a chefnogi ein hyfforddeion; ac yn buddsoddi mewn syniadau a phobl i helpu ein heconomi greadigol i ffynnu.

Cymru Greadigol - rydym yn darparu cefnogaeth ar draws ein sectorau creadigol – o gerddoriaeth i animeiddio. Rydym hefyd yn darparu gwybodaeth am y cyfleoedd hyfforddi diweddaraf, yn ogystal â chyngor ar gyllid.

Rydym yn hyrwyddo'r sectorau creadigol, fel y gallant rymuso unigolion creadigol. O'r lleoliadau ar lawr gwlad sy'n rhoi cyfle i artistiaid serennu, i'r ffilmiau sy'n arddangos y dalent tu ôl i'r camera. Wedi'r cyfan, pan fyddwn yn buddsoddi ynddyn nhw, rydym yn buddsoddi yng Nghymru.

Mae Cymru Greadigol yn darparu buddsoddiad a chymorth i fusnesau o Gymru a phrosiectau rhyngwladol sydd am weithio yng Nghymru. Bydd cyllid ar gael yn fuan - gyda rhagor o gynlluniau'n cael eu hychwanegu yn y dyfodol, gan gynnwys cronfa ddatblygu, cronfa sgiliau a chronfa gerddoriaeth.

Rydym bob amser yn diweddaru'r dudalen hon, felly cofiwch ddod yn ôl i'w gwirio'n fuan am ragor o gyfleoedd ac arweiniad ar sut i wneud cais.

Yn ogystal â'r cyllid, mae'r tîm yn dod â chyfoeth o brofiad o bob rhan o'r diwydiannau creadigol. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon a'n hadnoddau i gynnig arweiniad ymarferol a chefnogaeth i fusnesau. Boed hynny'n ymwneud â chysylltu pobl neu eu cyfeirio at wasanaethau arbenigol fel Sgrîn Cymru, rydym wrth law i helpu.

**Cysylltiadau:**

**Gwefan:**
www.cymrugreadigol.cymru/cy

**Cyfryngau Cymdeithasol:**
Cymru Greadigol

Cymru Greadigol
Creative Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# FinTech Wales

Mae FinTech Wales yn darparu llais annibynnol i'r diwydiant technoleg ariannol yng Nghymru a thu hwnt, a fydd yn helpu i hyrwyddo a gwneud yn fawr o'r potensial ar gyfer pob busnes yn y sector hwn.

Yn ogystal â meithrin a chefnogi'r busnesau hynny sydd eisoes yng Nghymru, ei nod yw datblygu ecosystem a fydd yn helpu cwmnïau technoleg ariannol newydd i sefydlu eu hunain neu i fusnesau dyfu. Yn y pen draw, y nod yw gwneud Cymru yn flaenllaw yng nghymuned fyd-eang technoleg ariannol.

Mae'r sefydliad yn cefnogi busnesau yn y sector technoleg ariannol yng Nghaerdydd i lansio, tyfu a ffynnu mewn awyrgylch cefnogol a chydweithredol. Mae'n gweithio gyda darparwyr addysg i ddatblygu'r sgiliau sy'n ofynnol o'r sector. Yn ei dro, ein nod yw hyrwyddo manteision gweithio yng Nghymru i dyfu cyflogaeth a chadw talent.

**Cysylltiadau:**

**Gwefan:**
fintechwales.org

**E-bost:**
info@fintechwales.org

**Cyfryngau Cymdeithasol:**
FinTech Wales

FinTechWales

# Canolfan Gwyddorau Bywyd

Cwmni hyd braich i Lywodraeth Cymru yw Canolfan Gwyddorau Bywyd Cymru. Rydym yn bodoli i gataleiddio arloesedd a chydweithio rhwng diwydiant, iechyd, gofal cymdeithasol a'r byd academaidd - gan wneud gwahaniaeth cadarnhaol i bobl, teuluoedd a busnesau ledled y wlad.

Mae'r ganolfan yn helpu i drawsnewid iechyd a lles economaidd y genedl trwy:

- Gyflymu'r gwaith o ddatblygu a mabwysiadu datrysiadau arloesol sy'n cefnogi anghenion iechyd a gofal cymdeithasol Cymru.
- Partneru â diwydiant i hyrwyddo datblygu economaidd ar draws y sector gwyddorau bywyd yng Nghymru, gan sbarduno twf busnes a chreu swyddi.
- Er mwyn helpu i wneud i hyn ddigwydd, rydym yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru i ddeall yr heriau a'r pwysau y gallai sefydliad eu hwynebu.  Ar ôl eu nodi, rydym yn gweithio gyda diwydiant i ddod o hyd i ddatrysiadau arloesol, a chefnogi'r datblygiad ohonynt, i ymateb i'r heriau hyn.

Mae ein tîm arbenigol yn darparu cymorth pwrpasol i gyflymu'r holl deithiau arloesi, p'un a ydym yn cefnogi clinigwr gyda syniad gwych neu'n hwyluso partneriaethau â sefydliadau gwyddorau bywyd rhyngwladol.

**Cysylltiadau:**

**Gwefan:**
lshubwales.com/cy/

**E-bost:**
helo@hwbgbcymru.com

**Ffôn:**
029 2046 7030

Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
Life Sciences Hub Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Manufacturing Wales

Mae Manufacturing Wales yn llais newydd sy'n cynrychioli gweledigaeth ac uchelgeisiau gweithgynhyrchwyr ledled Cymru.

Consortiwm cydweithredol a grëwyd yn benodol i helpu i ddiwallu anghenion cymhleth gweithgynhyrchwyr yng Nghymru, gan godi hygrededd brandiau Cymru, gwneud yn fawr o gyfleoedd y gadwyn gyflenwi ac adeiladu gwydnwch ar gyfer sefydliadau sy'n aelodau.

Mae Manufacturing Wales yn dod â syniadau, dulliau arloesol, arferion gorau ac ysbryd arloesol y gymuned weithgynhyrchu ynghyd yng Nghymru. Rydym yn cynnig Aelodaeth Gweithgynhyrchu i gwmnïau ac Aelodaeth Gysylltiedig i brifysgolion - gan ddarparu llwyfan unigryw i gydweithio, arloesi a chreu mentrau newydd.

**Cysylltiadau:**

**Gwefan:**
manufacturingwales.com

**Cyfryngau Cymdeithasol:**
Manufacturing Wales

MANUFACTURING WALES

# Technology Connected

Technology Connected yw'r prif rwydwaith ar gyfer technoleg yng Nghymru.  Ers bron i 20 mlynedd, maent wedi gweithio ochr yn ochr â'u haelodau i greu cysylltiadau busnes newydd, codi proffiliau ac i greu llais cyfunol pwerus i'r diwydiant technoleg yng Nghymru a thu hwnt.

Technology Connected - sefydliad yr eir iddo ar gyfer newyddion, barn a mewnwelediad i ddiwydiant technoleg Cymru a chefnogi'r sector technoleg i gysylltu, datblygu, arloesi, galluogi, dylanwadu a hyrwyddo.

**Cysylltiadau:**

**Gwefan:**
technologyconnected.net

**Cyfryngau Cymdeithasol:**
Technology Connected

Technology Connected

# Croeso Caerdydd

Mae'r corff twristiaeth swyddogol ar gyfer Caerdydd yn ymgorffori dau dîm: Croeso Caerdydd sy'n canolbwyntio ar y sector hamdden - a Cwrdd yng Nghaerdydd sy'n canolbwyntio ar y sector busnes.

Gyda'n gilydd rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o randdeiliaid amlwg, gyda'r nod o sicrhau bod twristiaeth yn cael yr effaith economaidd fwyaf posib drwy gynyddu nifer yr ymwelwyr, a hyrwyddo delwedd ddeinamig o Gaerdydd i'r byd.

Rydym hefyd yn cynnal y Rhwydwaith Croeso Caerdydd, ein cynllun aelodaeth blynyddol sy'n dod â gwahanol fusnesau hamdden a thwristiaeth ynghyd yng Nghaerdydd a'r rhanbarth sydd â diddordeb mewn gwneud Caerdydd yn gyrchfan lwyddiannus i ymwelwyr. Rydym yn rhan o Gyngor Caerdydd ac rydym yn Neuadd y Sir, Bae Caerdydd.

**Cysylltiadau:**

**Gwefan:**
www.croesocaerdydd.com

**E-bost:**
gsimons@caerdydd.gov.uk

**Cyfryngau Cymdeithasol:**
Croeso Caerdydd

CARDIFF CAERDYDD

CARDIFF CAERDYDD

# Rhwydwaith Croeso Caerdydd

Croeso Caerdydd yw sefydliad twristiaeth swyddogol y ddinas ac o fewn y gwasanaeth, mae nod Rhwydwaith Croeso Caerdydd yn syml, sicrhau'r cyfleoedd gorau posib ar gyfer teithio a thwristiaeth drwy hyrwyddo delwedd ddynamig Caerdydd i drigolion ac i'r byd.

Mae'r rhwydwaith yn gorff aelodaeth sy'n cynnwys busnesau yng Nghaerdydd a'r cyffiniau.  Mae aelodau'n cynnwys lleoliadau cynadledda, gwestai, fflatiau â gwasanaeth, trefnwyr teithiau, siopau, bwytai, timau chwaraeon a gweithredwyr cludiant sydd oll wedi ymuno â'r nod cyffredin o gyrraedd cynulleidfa ryngwladol ehangach.

Gall busnesau gofrestru â Rhwydwaith Croeso Caerdydd a mwynhau llu o fuddion marchnata am £400.00 y flwyddyn yn unig.

**Cysylltiadau:**

**Gwefan:**
Rhwydwaith Croeso Caerdydd

**E-bost:**
sian.prosser2@caerdydd.gov.uk

**Cyfryngau Cymdeithasol:**
Croeso Caerdydd

CARDIFF CAERDYDD

CARDIFF CAERDYDD

# SGILIAU, RECRIWTIO A HYFFORDDIANT

# Coleg Caerdydd a'r Fro

Coleg Caerdydd a'r Fro partner a gweithio gyda sefydliadau i ddarparu arloesol dull o ddysgu, helpu i rymuso'r gweithlu, datrys heriau busnes a cefnogi twf busnes yn y dyfodol.

Bydd ein Hymgynghorwyr Busnes ymroddedig yn cyfarfod â chi ac yn gweithio gyda chi i ddeall eich heriau a'ch nodau busnes. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon wedyn i greu rhaglen bwrpasol wedi'i theilwra'n benodol ar gyfer eich anghenion busnes.

Byddwn yn gweithio gyda chi i greu rhaglen ddatblygu sydd nid yn unig yn diwallu anghenion y rhai ar y rhaglen ond hefyd yn diwallu anghenion eich sefydliad. Ein nod ni yw cyflwyno rhaglen gadarn sy'n darparu cysondeb ledled eich sefydliad ac yn ategu'r mentrau hyfforddi sy'n bodoli eisoes.

Dydyn ni ddim yn gweld ein hyfforddiant ni fel un cyswllt. Rydyn ni'n dal i gefnogi eich busnes ar ôl i chi gael eich hyfforddiant, i sicrhau bod y rhaglen yn parhau o fudd i'ch busnes chi, a byddwn yn gweithio gyda chi i gadw ar flaen eich anghenion hyfforddi yn y dyfodol, gan helpu i gefnogi twf eich busnes yn y dyfodol a grymuso eich gweithlu.

**Cysylltiadau:**

**Gwefan:**
cavcforbusiness.co.uk

**E-bost:**
business@cavc.ac.uk

**Cyfryngau Cymdeithasol:**
Cardiff and Vale College

Cardiff and Vale College
Coleg Caerdydd a'r Fro

# Addewid Caerdydd

Mae Addewid Caerdydd yn helpu ein cenhedlaeth iau i ddeall y mathau o swyddi a diwydiannau sy'n tyfu yng Nghaerdydd a'r cyffiniau ac i gefnogi i archwilio pa swyddi allai fod yn addas i unigolion yn eu dyfodol, gan gynnig profiadau, cyfleoedd a sgiliau ar yr un pryd.

Gall busnesau a chyflogwyr gefnogi Addewid Caerdydd trwy gydweithio i roi'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar bobl ifanc i lwyddo.

Drwy gysylltu busnesau ac ysgolion, hoffai Addewid Caerdydd weld:

- Pobl ifanc sydd â'r sgiliau cywir i gefnogi ein cyflogwyr a'n sectorau twf ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd
- Gwell cyrhaeddiad addysgol mewn pynciau craidd fel Gwyddoniaeth, Mathemateg ac Iaith, yn deg ar draws y ddinas.
- Llwybrau addysg a chyflogaeth integredig i bobl ifanc.
- Dim pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, yn enwedig o grwpiau agored i niwed fel Plant sy'n Derbyn Gofal, teuluoedd incwm isel.
- Mynediad hawdd i bobl ifanc at wybodaeth a chyngor ar gyfleoedd gyrfaol
- Anogir busnesau i addo cefnogaeth a helpu i lunio ein gweithlu yn y dyfodol.

**Cysylltiadau:**

**Gwefan:**
Addewid Caerdydd

**E-bost:**
AddewidCaerdydd@caerdydd.gov.uk

**Ffôn:**
07837 340 205

**Cyfryngau Cymdeithasol:**
Addewid Caerdydd

The Cardiff Commitment
Addewid Caerdydd

CARDIFF
CAERDYDD

# Gyrfa Cymru

Mae ein tîm o Gynghorwyr Gyrfa proffesiynol wedi cymhwyso i helpu unigolion i fod yn fwy effeithiol wrth gynllunio a rheoli eu gyrfaoedd yn llwyddiannus.

Mae rheoli gyrfa yn golygu mwy nag un dewis galwedigaethol, ond yn hytrach delio gyda chyfres o newidiadau gyrfa gydol oes. Mae gwella sgiliau a rheoli gyrfa unigolion yn eu galluogi i wneud y newidiadau hyn yn fwy esmwyth, i gael mwy o foddhad yn eu gyrfa ac i wneud mwy o gyfraniad at yr economi a'u cymunedau.

Rydym yn cynnig gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd annibynnol a diduedd am yrfaoedd mewn canolfannau, ar leoliad partner, ar-lein, dros y ffôn a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Mae Gyrfa Cymru yn darparu ystod o wasanaethau am ddim i gyflogwyr yng Nghymru, gan gynnwys:

- Gweithio gydag ysgolion
- Cymorth diswyddo i gyflogwyr
- Cefnogaeth ReAct+
- Cyflogi pobl ifanc
- Gwybodaeth prentisiaethau i gyflogwyr
- Cyflogi pobl anabl

**Cysylltiadau:**

**Gwefan:**
gyrfacymru.llyw.cymru

**E-bost:**
post@careerswales.gov.wales

**Cyfryngau Cymdeithasol:**
Careers Wales

Gyrfa Cymru
Careers Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cymorth sy'n addas i chi

Mae'r Gwasanaeth i Mewn i Waith yn cynnig cymorth cyflogaeth a digidol i unigolion sy'n chwilio am waith neu'n ystyried datblygu eu sgiliau.

I Gyflogwyr – Rydyn ni'n cydweithio â chyflogwyr sy'n chwilio am gyflogeion, lleoliadau i gynnal cyfweliadau a hyfforddiant yn gyfnewid am sicrhau lleoliad i gynnal cyfweliadau.

Cyngor Caerdydd Mae timau Into Work and Adult Learning yn darparu cyn-gyflogaeth lwyr i fusnesau lleol pecyn. Gall y timau helpu i ddenu cyflogaeth addas, wedi'i ragasesu ymlaen llaw ymgeiswyr yn barod.

Yn 2018/9 fe wnaethom helpu bron i 40,500 o bobl o dros 35 o leoliadau gwahanol gyda gwaith cysylltiedig.  gweithgareddau a 211 o gyflogwyr i lenwi swyddi gwag oedd ar gael ar draws y ddinas.  Ar y cyd â'r Ganolfan Waith, mae'r timau'n cynnal 2 ffair swyddi fawr bob blwyddyn, lle mae Mae miloedd yn mynychu. Maent hefyd yn cynnal nifer o ffeiriau swyddi llai mewn cymunedau lleol.

**Cysylltiadau:**

**Gwefan:**
www.intoworkcardiff.co.uk/cy/

**E-bost:**
intoworkadviceservice@cardiff.gov.uk

**Cyfryngau Cymdeithasol:**
Into Work Advice Service

# Tramshed Tech

P'un a ydych chi'n weithiwr llawrydd, yn fusnes newydd yn y cyfnod cynnar, busnes sydd wrthi'n tyfu gydag uchelgeisiau byd-eang neu'n dyheu am fod yn entrepreneur technoleg mawr nesaf, efallai eich bod newydd ddod o hyd i'ch gofod cydweithredu delfrydol.

Mae Tramshed Tech yn gymuned ag iddi gysylltiadau di-ri o fusnesau technoleg newydd a busnesau sydd wrthi'n tyfu a adeiladwyd gyda hyblygrwydd ac arloesedd mewn golwg. Rydym yn canolbwyntio ar dair elfen graidd; gweithfannau hyblyg sy'n datblygu gyda chi, rhaglenni cymorth i fusnesau technoleg newydd a busnesau sydd wrthi'n tyfu a hyfforddiant sgiliau busnes.

Mae Tramshed Teach hefyd yn cynnig amrywiaeth o raglenni cymorth:

- Academi - Egin Fusnes
- Parodrwydd - Buddsoddwr
- Sbardunwr Technoleg Werdd
- Cyfuno Creadigol
- Hyb Arloesedd Seiber
- Y Clwstwr Allforio Technoleg
- Rhaglenni Glanio Meddal - wedi'u cynllunio i gefnogi busnesau rhyngwladol i dyfu yng Nghymru diolch i becyn cymorth pwrpasol

**Cysylltiadau:**

**Gwefan:**
www.tramshedtech.co.uk/cy/

**Cyfryngau Cymdeithasol:**
Tramshed Tech

# TRYDYDD SECTOR

# Rhwydwaith Economi Gylchol Caerdydd

Mae Rhwydwaith Economi Gylchol Caerdydd (RhEGC) yn brosiect cydweithredol rhwng Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Celsa Steel UK, Caerdydd Un Blaned ac Addewid Caerdydd (Datblygu'r Cwricwlwm). Mae'r prosiect yn cael ei ariannu gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Adfywio Cymunedol y DU.

Mae hwn yn brosiect peilot sy'n gweithio gyda busnesau, ysgolion a cholegau o fewn ffin Cyngor Caerdydd. Mae prosiect RhEGC yn gyfres o 4 gweithdy a fydd yn cefnogi ymarferwyr i ddod ynghyd i rwydweithio a datblygu dealltwriaeth lawnach o egwyddorion yr economi gylchol (EG).

Mae ein rhaglen beilot yn mynd rhagddi ers tro erbyn hyn, ond gallwch ymuno â'n cymuned os ydych chi am gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ein canfyddiadau, cyfleoedd yn y dyfodol a'r datblygiadau diweddaraf o ran yr economi gylchol yng Nghymru.

**Cysylltiadau:**

**Gwefan:**
www.walescirculareconomy.com/cy/

**Cyfryngau Cymdeithasol:**
Rhwydwaith Economi Gylchol Caerdydd (RhEGC)

Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd

CELSA GROUP | CELSA STEEL UK

CC EN

One Planet Cardiff

The Cardiff Commitment Addewid Caerdydd

# Cyngor Trydydd Sector Caerdydd

Mae Cyngor Trydydd Sector Caerdydd yn bodoli i gefnogi a datblygu trydydd sector Caerdydd. Gan weithio gyda Llywodraeth Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC), rydym wedi ymrwymo i gynyddu gwybodaeth a sgiliau'r sector er mwyn sicrhau y gall grwpiau a sefydliadau yng Nghaerdydd wneud eu hunain yn gynaliadwy a diwallu anghenion eu cymunedau.

Gallwn eich helpu chi gyda:

- Sefydlu Grŵp Cymunedol
- Cefnogaeth Arbenigol Un i Un
- Cyllid a Chynaliadwyedd
- Hyfforddiant a Rhwydweithio

**Cysylltiadau:**

**Gwefan:**
c3sc.org.uk

**E-bost:**
enquiries@c3sc.org.uk

**Cyfryngau Cymdeithasol:**
Cyngor Trydydd Sector Caerdydd (C3SC)

C3SC
Cardiff Third Sector Council
Cyngor Trydydd Sector Caerdydd

# Sefydliad Cymunedol Cymru

Ers dros ugain mlynedd, mae Sefydliad Cymunedol Cymru wedi bod yn cefnogi elusennau a grwpiau cymunedol gyda chyllid i gryfhau cymunedau ledled Cymru.

Ers 1999, rydym wedi dyfarnu dros £40m mewn grantiau i grwpiau cymunedol ac elusennau ar lawr gwlad ledled Cymru.

Rydym yn gweithio gyda'n cefnogwyr hael i gyrraedd y bobl fwyaf anghenus a helpu i greu cydraddoldeb a chyfle yng nghymunedau Cymru.

Mae dros 30,000 o grwpiau cymunedol ac elusennau yng Nghymru yn gweithio i wella a datblygu eu cymunedau, gan ddefnyddio eu menter i ddiwallu anghenion lleol. Mae'r grwpiau a'r elusennau hyn yn deall yr heriau sy'n wynebu pobl yn eu cymuned ac yn gwybod y ffordd orau o fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn.

**Cysylltiadau:**

**Gwefan:**
communityfoundationwales.org.uk/cy/hafan/

**E-bost:**
info@communityfoundationwales.org.uk

**Cyfryngau Cymdeithasol:**
Sefydliad Cymunedol Cymru

Community Foundation Wales

# Cwmpas

Cwmpas yw asiantaeth datblygu cydweithredol fwyaf y DU.

Rydym wedi bod wrth galon economi gymdeithasol fywiog Cymru ers 1982, gan ddod â chyllidwyr a phartneriaid ynghyd i wneud ein cymunedau'n fwy hyderus, uchelgeisiol, ac yn fwy cydweithredol.

Rydym yn darparu ystod o wasanaethau (masnachol a chyllid cyhoeddus) ac yn gwneud gwaith polisi a materion cyhoeddus, pob un â'r nod o gyflawni ein hamcanion corfforaethol.

Mae ein tîm ymgynghori busnes yn helpu busnesau a sefydliadau i yrru'n bositif newid drwy arloesi, trawsnewid digidol a gwerth cymdeithasol.

Maent yn ymgynghorwyr ar gyfer newid cadarnhaol a gyda'n gilydd gallwn adeiladu cryfach, cyfoethocach cymunedau. Mae eu gwasanaethau ymgynghori busnes yn canolbwyntio ar gadw cyflogaeth, Caffael a chyfleoedd lleol.

**Cysylltiadau:**

**Gwefan:**
cy.cwmpas.coop

**E-bost:**
info@cwmpas.coop

**Ffôn:**
0300 111 50 50

**Cyfryngau Cymdeithasol:**
Cwmpas

# Cwmnïau Cymdeithasol Cymru

Cwmnïau Cymdeithasol Cymru yw'r Asiantaeth Gymorth Genedlaethol sy'n cefnogi mentrau cymdeithasol sydd am fabwysiadu egwyddorion a gwerthoedd Cwmnïau Cymdeithasol i greu gweithleoedd sy'n gynhwysol, cefnogol, galluogol a blaengar.

Ein gwerthoedd: Cydraddoldeb trwy Fenter, Cyflogaeth ac Ymrymuso.

Menter - Busnes sy'n cydnabod, yn gwerthfawrogi ac yn cynnwys cyfraniad unigryw pawb at ddatblygu lleoedd amrywiol gyda chyfleoedd, yn enwedig y rheini sy'n profi gwahaniaethu wrth ddod o hyd i waith, hyfforddiant neu wirfoddoli.

Cyflogaeth - Gwaith ystyrlon, sgiliau cyflogadwyedd a chyflog teg.

Ymrymuso - Magu hyder ac ymdeimlad o berthyn.

**Cysylltiadau:**

**Gwefan:**
www.socialfirmswales.co.uk/hafan/

**E-bost:**
vinapatel@socialfirmswales.co.uk

**Cyfryngau Cymdeithasol:**
Cwmnïau Cymdeithasol Cymru

socialfirmswales
enterprise, employment, empowerment

# CGGC

CGGC yw'r corff aelodaeth cenedlaethol ar gyfer sefydliadau gwirfoddol yng Nghymru.

Mae'n bwysicach nag erioed bod gan sefydliadau gwirfoddol y sgiliau a'r offer sydd eu hangen arnynt i ddod o hyd i gyllid ac arallgyfeirio eu hincwm. Yn 2021/22 dosbarthodd CGGC oddeutu £28.9m mewn cyllid i elusennau, mentrau cymdeithasol a gwirfoddolwyr yng Nghymru.

Yn ein hadran gyllido ceir gwybodaeth am gynlluniau cyllido CGGC, ynghyd â phopeth sydd ei angen arnoch i'ch helpu i chwilio am gyllid a'i gynnal ar gyfer eich achos.

I wneud cais am gyllid gan CGGC bydd angen i chi gofrestru ar ein Porth Ceisiadau Amlbwrpas (PCA).   Ar ôl cofrestru, byddwch yn gallu cyflwyno ceisiadau yn gyflym ac yn ddiogel.

Ein dull o weithio

- Cynnwys aelodau
- Bod yn agored ac yn gynhwysol
- Edrych ymlaen
- Gweithio gydag eraill
- Defnyddio tystiolaeth
- Sicrhau'r effaith fwyaf

**Cysylltiadau:**

**Gwefan:**
CGGC

**E-bost:**
help@wcva.cymru

**Cyfryngau Cymdeithasol:**
WCVA - CGGC

INVEST IN
CARDIFF
CYFOETHOGI
CAERDYDD

hello@investincardiff.com

www.investincardiff.com

@investincardiff

Cyfoethogi Caerdydd

CARDIFF
CAERDYDD

© Cyfoethogi Caerdydd, Cyngor Caerdydd 2024

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

Ymwadiad: Nod y canllaw hwn yw rhoi gwybodaeth i helpu'r rhai sy'n ei ddarllen i wneud eu penderfyniadau a dewisiadau am y gwasanaethau cymorth busnes sy'n gweithredu yng Nghaerdydd. Mae'r wybodaeth wedi'i hymchwilio a'i chyflwyno fel y'i chanfuwyd ar wefannau trydydd partïon a gwybodaeth hyrwyddo. Bydd Cyngor Caerdydd yn diweddaru'r ddogfen hon bob chwarter neu yn ôl y wybodaeth a geir am newidiadau sylweddol yn y wybodaeth a ddarparwyd. Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan Gyngor Caerdydd mewn cysylltiad â'r canllaw hwn.